# DYDDIAU AGORED

Dydd Sul, Hydref 13
Dydd Sul, Hydref 27
Dydd Sadwrn, Tachwedd 09



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

# SGWRS FYW

Bydd sesiwn sgwrs fyw yn cael ei chynnal rhwng 10am-4pm ar y dydd Llun yn dilyn Diwrnod Agored. Os oes gennych unrhyw gwestiwn yn dilyn eich ymweliad, yna ymunwch yn y sgwrs trwy ddilyn y linc ar y dudalen yma:
**www.bangor.ac.uk/sgwrsfyw**



**@prifysgolbangor**
**prifysgolbangor**
**facebook.com/prifysgolbangor**
**@prifysgolbangor**

# AMSERLEN
## Y DIWRNOD AGORED

Yn ystod Diwrnod Agored Bangor, **byddwch yn cael eich arwain i ymweld â'r pynciau academaidd ar amseroedd penodol.**

Rydym yn eich **cynghori'n gryf i fynychu un o'r sesiynau Croeso** – naill ai yn y bore neu'r prynhawn.

Ar ddiwedd y Croeso, bydd myfyrwyr presennol yn eich arwain (ar droed neu mewn bws) i ymweld â'r pwnc academaidd perthnasol.

Heblaw am y Croeso a'r ymweliad â'r pwnc academiadd, efallai y byddwch yn dymuno mynychu un o'r cyflwyniadau, mynd ar daith o gwmpas y campws a'r neuaddau neu ymweld â'r mannau gwybodaeth ac arddangos. Mae'r manylion ar dudalen 7.

| AMSER | DIGWYDDIAD A LLEOLIAD | GWYBODAETH HANFODOL |
|---|---|---|
| 9.15am ymlaen | **Cofrestru**<br>Prif Adeilad y Brifysgol<br>51 ar y map, tudalennau 14-15 | Rhowch eich Cerdyn Cofrestru parod i aelod staff mewn crys-t du ac fe gewch eich Pecyn Croeso. Os nad oes gennych Gerdyn Cofrestru parod, llenwch un pan ydych yn cyrraedd os gwelwch yn dda. |
| 10:00am | **Croeso**<br>Neuadd Prichard-Jones,<br>Prif Adeilad y Brifysgol<br>51 ar y map, tudalennau 14-15 | Ar ddiwedd y Croeso, bydd myfyrwyr presennol yn eich arwain i ymweld â'ch pwnc academaidd. Ni fydd rhaid i chi ffeindio eich ffordd yno. |
| 10:30am-12.15pm | **Ymweld â'r Pwnc Academaidd**<br>Lleoliadau amrywiol | Os ydych yn cyrraedd yn hwyr ac yn colli'r Croeso, dewch i Brif Adeilad y Brifysgol (51 ar y map, tudalennau 14-15), am 10.15am i gyfarfod â'r myfyrwyr fydd yn eich arwain a'r ymwelwyr eraill wrth iddynt ddod allan o'r Croeso i gychwyn i'r pynciau academaidd. Gwelwch dudalen 5 am beth i'w wneud os ydych yn colli'r cychwyn i'r pynciau academaidd. |
| 12.15pm-1.45pm | **Cinio i'r Cymry**<br>Cyfarfod a chroeso i'r Cymry yn ystod yr egwyl yn Ystafell Gynhadledd 3, Llawr y Teras, Prif Adeilad y Brifysgol<br>51 ar y map, tudalennau 14-15 | Dyma gyfle i ddarpar-fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg a'u ffrindiau/teuluoedd ddod ynghyd i gael mwy o wybodaeth ynglŷn ag astudio a byw ym Mangor. Bydd bwffe ar gael a chyfle ar y diwedd i ymweld â neuadd JMJ. |
| 1.15pm | **Croeso**<br>(Ail adroddiad o'r Croeso yn y bore)<br>Neuadd Prichard-Jones,<br>Prif Adeilad y Brifysgol<br>51 ar y map, tudalennau 14-15 | Ar ddiwedd y Croeso, bydd myfyrwyr presennol yn eich arwain i ymweld â'ch pwnc academaidd. Ni fydd rhaid i chi ffeindio eich ffordd yno. |
| 1.45pm-3.30pm | **Ymweld â'r Pwnc Academaidd**<br>Lleoliadau amrywiol | Os ydych yn cyrraedd yn hwyr ac yn colli'r Croeso, dewch i Brif Adeilad y Brifysgol (51 ar y map, tudalennau 14-15), am 1.30pm i gyfarfod â'r myfyrwyr fydd yn eich arwain a'r ymwelwyr eraill wrth iddynt ddod allan o'r Croeso i gychwyn i'r pynciau academaidd. Gwelwch dudalen 5 am beth i'w wneud os ydych yn colli'r cychwyn i'r pynciau academaidd. |

### YMA I'CH HELPU

Yn ystod y Diwrnod Agored, bydd aelodau staff, yn gwisgo crys-t du, wrth law i'ch helpu os bydd gennych unrhyw gwestiwn. Bydd arweinwyr o blith y myfyrwyr mewn crys-t coch hefyd o gwmpas i'ch helpu os na fyddwch yn sicr ble i fynd neu beth i'w wneud. Holwch hwy hefyd am y profiad o fod yn fyfyriwr ym Mangor!

# CYN Y DIWRNOD AGORED

- Ystyriwch pa pwnc neu bynciau academaidd rydych am ymweld â hwy yn ystod y Diwrnod Agored. **Bydd cyfle i ymweld â dau bwnc academaidd yn ystod y diwrnod** – un yn y bore a'r llall yn y prynhawn (edrychwch ar **Brif Amserlen y Diwrnod Agored** ar dudalen 3 am yr amseroedd). Os ydych angen ymweld â mwy na dau, yna gadewch i'r staff sydd ar y ddesg yn nerbynfa Prif Adeilad y Brifysgol (51 ar y map) wybod a byddwn yn trefnu i chi ymweld â thrydedd pwnc ar ddiwedd y dydd.
- Os ydych am ymweld ag un pwnc yn unig, efallai yr hoffech ystyried ddod am y prynhawn yn unig (edrychwch ar **Brif Amserlen y Diwrnod Agored** ar dudalen 3) gan fod y grwpiau fel rheol yn llai yn y prynhawn.
- Cymrwch olwg ar y **gweithgareddau eraill sy'n cael eu cynnal yn ystod y diwrnod** (gweler tudalen 7) cyn i chi gyrraedd er mwyn cynllunio'r gweithgareddau eraill yr hoffech fod yn rhan ohonynt ar y diwrnod.
- Os oes anabledd arnoch chi neu unrhyw aelodau o'ch parti, a'r posibilrwydd fod angen addasiadau rhesymol (yn cynnwys gofynion o ran mynediad), **rhowch wybod inni ymlaen llaw** os gwelwch yn dda, fel y gallwn wneud y trefniadau angenrheidiol.
- **Cynlluniwch eich taith a rhowch ddigon o amser i deithio yma** (gwelwch tudalen 12 a 13-15 am fap o'r campws).
- **Trefnwch lety** ymlaen llaw os ydych yn bwriadu aros ym Mangor neu'r ardal (gwelwch dudalen 8).
- **Gwisgwch esgidiau cyfforddus** – mae rhai o'r meysydd pwnc rhyw 10 munud o waith cerdded o Brif Adeilad y Brifysgol.
- Edrychwch ar y wefan – **www.bangor.ac.uk/diwrnodagored** am y wybodaeth ddiweddaraf am y Diwrnod Agored. Gallwch hefyd gadw mewn cysylltiad â ni ar y cyfryngau cymdeithasol.
- **Cofiwch ddod â'ch Cerdyn Cofrestru parod efo chi!**





# PAN YDYCH YN CYRRAEDD AC YN YSTOD Y DIWRNOD AGORED

- Bydd cyfleusterau Parcio a Theithio wedi cael eu trefnu i'r Diwrnod Agored – gwelwch y manylion am sut i gyrraedd Bangor ar dudalen 12.
- **Cofrestru a Chroeso** – bydd y Diwrnod Agored yn dechrau am 10.00am gyda chyflwyniad i Fangor yn Neuadd Prichard-Jones, Prif Adeilad y Brifysgol (rhif 51 ar y map – gwelwch dudalennau 14-15). Dewch i gyntedd Prif Adeilad y Brifysgol a fydd yn agored o 9.15am a rhowch eich Cerdyn Cofrestru parod i aelod staff.
- **Ar ddiwedd y Croeso, bydd myfyrwyr presennol yn eich arwain ar droed neu mewn bws i ymweld â'ch pwnc academaidd.**
- **Os ydych yn cyrraedd yn hwyr ac yn colli'r symud i ymweld â'r pwnc academaidd**, ni allwn sicrhau y gallwn eich cludo yno. Os ydych wedi colli'r ymweliad yn y bore – mae gweithgareddau eraill y gallwch ddewis eu gwneud, e.e. teithiau o gwmpas y campws a'r neuaddau, ymweld â'r arddangosfa a'r man gwybodaeth (gwelwch dudalen 7). Gallwch ymweld â'r pwnc academaidd yn y prynhawn (gwelwch Prif Amserlen y Diwrnod Agored ar dudalen 3), neu gallwn drefnu i chi gwrdd â chynrychiolwyr o'r pwnc academaidd ar ddiwedd y diwrnod – dewch i'r ddesg yn nerbynfa Prif Adeilad y Brifysgol (51 ar y map).
- Os ydych am **ymweld ag ail bwnc academaidd yn y prynhawn – nid oes angen i chi fynd i'r Croeso eto yn y prynhawn** gan ei fod yn ailadroddiad o'r Croeso yn y bore.

  **Mae angen i chi fod yn y maes parcio y tu allan i brif fynedfa Prif Adeilad y Celfyddydau (rhif 51 ar y map, tudalennau 14-15) am 1.30pm** i gyfarfod â'r myfyrwyr fydd yn mynd â chi a'r ymwelwyr eraill i'r pynciau academaidd.
- Os ydych yn **cyrraedd yn y prynhawn** ac eisiau ymweld ag un pwnc yn unig, dewch i'r ddesg yn nerbynfa Prif Adeilad y Brifysgol ar gyfer y Croeso fydd yn dechrau am **1.15pm a rhowch eich cerdyn cofrestru parod i aelod staff. Ar ddiwedd y Croeso, bydd myfyrwyr presennol yn eich arwain (ar droed neu mewn bws) i ymweld â'r pwnc.** (Darllenwch y pwynt yn y golofn flaenorol am beth i'w wneud os ydych yn cyrraedd yn hwyr ac yn colli'r cychwyn.)

# PYNCIAU ACADEMAIDD

AUR
AM RAGORIAETH ADDYSGU
FfRhA Aur

Isod ceir rhestr o'r pynciau academaidd ym Mhrifysgol Bangor. Ceir rhestr lawn o'r cyrsiau a disgrifiadau'r cyrsiau yma: **www.bangor.ac.uk/courses/undergrad/index.php.cy**

Dan y pennawd **'Mwy o wybodaeth / More information'** o fewn disgrifiad cwrs, cewch wybod enw'r pwnc academaidd sy'n cynnal y cwrs hwnnw. Os nad ydych yn siŵr ar ôl gwneud hynny pa bwnc y dylech fynychu yn ystod y Diwrnod Agored, e-bostiwch: **diwrnodagored@bangor.ac.uk** os gwelwch yn dda.

"Roedd y diwrnod yn hynod o bleserus, cefais ateb i'm holl gwestiynau ac roeddwn yn teimlo y byddai bywyd ym Mangor yn fy siwtio!"

**Nid ydym wedi nodi lleoliadau'r ymweliadau â'r pynciau academaidd gan y byddwch yn cael eich arwain yno gan y myfyrwyr presennol ar ôl y Croeso (gwelwch Brif Amserlen y Diwrnod Agored, tudalen 3 am yr amseroedd).**

- Addysg
- Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau
- Athroniaeth a Chrefydd
- Bioleg a Sŵoleg
- Cerddoriaeth
- Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig
- Cymraeg
- Daearyddiaeth, Coedwigaeth, Gwyddorau Amgylcheddol, Cadwraeth ac Ecoleg
- Dylunio Cynnyrch
- Gwleidyddiaeth
- Hanes, Hanes Cymru ac Archaeoleg
- Ieithyddiaeth ac Iaith Saesneg
- Ieithoedd Modern
- Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer
- Gwyddorau Cymdeithas
- Gwyddorau Eigion
- Gwyddorau Iechyd*
- Gwyddorau Meddygol
- Llenyddiaeth Saesneg
- Ysgol Busnes Bangor
- Y Gyfraith
- Seicoleg

*** Gwybodaeth bwysig i'r rhai sy'n dymuno ymweld â Gwyddorau Iechyd**

**Bydd staff academaidd yn bresennol yng nghampws Bangor ac yn Wrecsam. Bydd y safle y bydd angen i chi fynd iddo yn dibynnu ar y cwrs a ddewiswch.**

**Ewch i gampws Bangor NEU Wrecsam os ydych â diddordeb mewn:**
- Nyrsio Oedolion
- Nyrsio Iechyd Meddwl
- Bydwreigiaeth

**Ewch i gampws Bangor os ydych â diddordeb mewn:**
- Nyrsio Anableddau Dysgu
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**Ewch i gampws Wrecsam os ydych â diddordeb mewn:**
- Nyrsio Plant
- Radiograffeg Ddiagnostig BSc

Am fwy o wybodaeth am ymweld â champws Wrecsam, ffoniwch Radiograffeg Diagnostig:
01248 383999
Nyrsio:
01248 383931

# CYFLWYNIADAU, TEITHIAU AC ARDDANGOSFEYDD



| CYFLWYNIADAU | TEITHIAU | ARDDANGOSFEYDD |
|---|---|---|
| **Cyllid Myfyrwyr**<br>12.30pm a 3.15pm<br>Prif Ddarlithfa'r Celfyddydau (51 ar y map, tud. 14-15).<br><br>**Llety ym Mangor**<br>1.15pm<br>Prif Ddarlithfa'r Celfyddydau (51 ar y map, tud. 14-15).<br><br>**Bywyd Myfyriwr ym Mangor**<br>11.30am ac 2.15pm<br>Prif Ddarlithfa'r Celfyddydau (51 ar y map, tud. 14-15).<br><br>**Chwaraeon ym Mangor**<br>2.45pm<br>Prif Ddarlithfa'r Celfyddydau (51 ar y map, tud. 14-15).<br><br>**Astudio trwy'r Gymraeg**<br>12.15pm-1.45pm<br>Ystafell Gynhadledd 3, Llawr y Teras, Prif Adeilad y Brifysgol (51 ar y map, tud. 14-15). | **Teithiau o Gwmpas y Campws a'r Neuaddau – yn rheolaidd o 11.00am ymlaen, gyda'r daith ddiwethaf am 4.30pm.**<br><br>Bydd teithiau bws dan arweiniad myfyrwyr i weld y campws, y llety a'r ganolfan chwaraeon, Canolfan Brailsford yn cychwyn o gyferbyn i Brif Adeilad y Brifysgol (51 ar y map, tudalennau 14-15).<br><br>Sylwer bod y teithiau hyn yn arbennig o brysur dros gyfnod amser cinio ac mae'n bosibl y bydd rhaid disgwyl hyd at 30 munud am daith. Cadwch hyn mewn cof os ydych yn dymuno ymweld ag ail bwnc academaidd yn y prynhawn (gwelwch Brif Amserlen y Diwrnod Agored ar dudalen 3 am fanylion). | **Arddangosfeydd a Mannau Gwybodaeth**<br>Prif Adeilad y Brifysgol (51 ar y map, tudalennau 14-15) rhwng 8.45-4.30pm.<br><br>Dewch i wybod mwy am: Astudio Dramor, Bwrsariaethau ac Ysgoloriaethau, Canolfan Chwaraeon Brailsford, Canolfan Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd, Cyllid Myfyrwyr, Derbyniadau, Gwasanaethau Cefnogi Myfyrwyr (yn cynnwys Gwasanaethau Anabledd rhwng 10.00am-2.00pm), Gwasanaeth y Llyfrgell, Llety, Undeb y Myfyrwyr, Canolfan Dyslecsia Miles, Canolfan Celfyddydau ac Arloesi Pontio.<br><br>**Adnoddau a Chyfleusterau Astudio**<br>Bydd y Brif Lyfrgell (51 ar y map, tudalennau 14-15 ) neu Lyfrgell Adeilad Deiniol (47 ar y map, tudalennau 14-15) yn agored yn ystod y Diwrnod Agored. |



## YMLACIO A CHAEL

# SEIBIANT

**Bydd ymweld â'r pwnc academaidd, mynychu cyflwyniadau a theithiau ac ymweld â'r stondinau gwybodaeth yn eich cadw'n brysur yn ystod y Diwrnod Agored, ond mae yma ddigon o fannau cyfleus lle gallwch gymryd seibiant yn ystod y dydd.**


atyniadau ERYRI

CERDYN eryri-snowdonia PASS

**I groesawu ymwelwyr y Diwrnod Agored i ogledd Cymru, mae Atyniadau Eryri yn cynnig Cerdyn Eryri, sef cerdyn gostyngiadau, yn rhad ac am ddim i fyfyrwyr.**

Efo'r cerdyn, cewch ostyngiad rhwng 10%-20% mewn nifer o atyniadau yn yr ardal – yn cynnwys Glasfryn Wakeparc, Zip World, Sŵ Môr a Go Below.

Ewch i wefan Cerdyn Eryri **www.snowdoniapass.co.uk/buy-online** a defnyddiwch y cod BANGOR UNI.



## LLEFYDD I FWYTA

**NEUADD POWIS**
**Prif Adeilad y Brifysgol**
(51 ar y map)
8.30am-3.30pm
Galwch draw am goffi neu sudd ffrwythau am ddim. Amrywiaeth eang o snaciau cartref ar werth.

**CAFFI'R TERAS**
**Prif Adeilad y Brifysgol**
(51 ar y map)
10.30am-3.30pm
Bydd prydau poeth a snaciau ar gael.

**BAR UNO**
**Safle Ffriddoedd**
(33 ar y map)
11.00am-11.00pm.
Bwyd cartref poeth a snaciau

**CAFFI CEGIN**
**Lefel 2, Adeilad Pontio**
(48 ar y map)
9.00am-8.00pm
Bagels, pitsa, wafflau, prydau poeth a byrbrydau.

**BARLOWS**
**Safle'r Santes Fair**
(75 ar y map)
10.00am -10.00pm
Diodydd a byrbrydau

**BAR FFYNNON**
**Llawr isaf, Adeilad Pontio**
(48 ar y map)
12.00pm-6.00pm
Diodydd a byrbrydau

## LLEFYDD I AROS

Mae Canolfan Rheolaeth y Brifysgol yn cynnig llety 4*: **www.bangor.ac.uk/canolfan_rheolaeth**. Ffoniwch 01248 365 900 a dyfynnu'r canlynol am ostyngiad arbennig Diwrnod Agored y Brifysgol: DIWRNODAGORED19.

Mae ystafelloedd sengl ar gael yn ein llety en-suite ar y campws. Ffoniwch 01248 388 088 neu archebwch ar ein gwefan: **wwwbangor.ac.uk/aros**

I'r rheiny ohonoch sy'n dymuno gwneud eich trefniadau eich hunain, cysylltwch â Thwristiaeth Gogledd Cymru ar **08705 168 767** neu fynd i **www.nwt.co.uk.**

Pontio

**Rydym yn falch o gynnig gostyngiad o 10% ar y pris tocynnau arferol ar gyfer y digwyddiadau yma yn Pontio i gyd-fynd â'r Dyddiau Agored:**

**Sadwrn 12 Hydref 8pm**
**Carwyn Ellis a Rio 18**
Côd arbennig: 10CARWYN

**Sadwrn 26 Hydref 8pm**
**9Bach**
Côd arbennig: 109BACH

**Sadwrn 9 Tachwedd 7pm**
**Ockham's Razor – This Time**
Côd arbennig: 10THISTIME

Ewch i **www.pontio.co.uk** neu ffoniwch 01248 38 28 28 am fwy o wybodaeth. Gweithredir telerau ac amodau arferol Pontio.

# MAE PROFIAD RHAGOROL

## Gwobr Aur am Addysgu Rhagorol

**Ym Mhrifysgol Bangor, rydym yn gwneud ein gorau i fynd y tu hwnt i'r disgwyliadau arferol er mwyn darparu profiad prifysgol sy'n bleserus ac yn werth chweil.**

**Ac mae rhagoriaeth yr addysgu a'r profiad myfyrwyr yn ei gyfanrwydd wedi eu cymeradwyo'n ddiweddar gan berfformiad y Brifysgol mewn sawl arolwg allanol.**

- Cafodd ein hymrwymiad i addysgu rhagorol ei gydnabod gyda Gwobr Aur yn Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (TEF, 2017), sy'n cael ei gynnal gan y llywodraeth a golyga'r wobr bod ein dysgu o'r radd flaenaf.
- Gosododd canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr 2019 Prifysgol Bangor ymysg y 10 uchaf ym Mhrydain am foddhad myfyrwyr*
- Cafodd yr ymchwil o safon fyd-eang a gyflawnir ym Mangor ei chydnabod gan Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014 (REF), asesiad cenedlaethol o ansawdd ymchwil. Yn ôl canlyniadau'r REF, mae Bangor ymysg y 40 prifysgol orau ym Mhrydain** am ansawdd ei hymchwil gyda'r ymchwil mewn dros hanner ein Hysgolion academaidd yn yr 20 uchaf ym Mhrydain.

Mae myfyrwyr Bangor wedi ymateb mor gadarnhaol i'w profiad o astudio yma, enillodd y Brifysgol nifer o wobrau yng Seremoni Wobrwyo WhatUni 2019:

- Cyntaf am y Clybiau a Chymdeithasau gorau ym Mhrydain
- Trydedd ym Mhrydain yn nghategori Llety Prifysgol.



**Y GORAU AM GLYBIAU A CHYMDEITHASAU**
Gwobrau *Whatuni* 2019







**LLETY PRIFYSGOL YN Y 3 UCHAF**
Gwobrau *Whatuni* 2019

* ac eithrio sefydliadau arbenigol
** heb gyfrif sefydliadau arbenigol a phrifysgolion oedd yn cyflwyno mewn un Uned Asesu yn unig

# YN EICH AROS

**Mae Bangor yn cael ei restru'n rheolaidd ymysg y llefydd gorau i fod yn fyfyriwr, ac mae ansawdd y profiad a gaiff myfyrwyr yma yn sicr yn rheswm da dros ddewis astudio yma.**

**Mae'r sicrwydd o lety, costau byw isel, y gefnogaeth i fyfyrwyr a'r bywyd naturiol Gymraeg i gyd yn cyfrannu at hynny. Fel myfyriwr ym Mangor, byddwch hefyd yn elwa o'r buddsoddiad parhaus mewn cyfleusterau a gwasanaethau cefnogi.**

Er enghraifft:

- Pontio, canolfan celfyddydau ac arloesi y Brifysgol, sy'n ganolbwynt cymdeithasol i fyfyrwyr. Mae'r ganolfan yn cynnwys theatr, theatr stiwdio a sinema ddigidol 200-sedd. Mae yno hefyd fwyd a diod yn Bar Ffynnon ar y llawr isaf ac yn Cegin ar lefel 2. Yn ogystal, mae Pontio yn gartref i Undeb y Myfyrwyr, ac yn cynnig gofodau dysgu cymdeithasol. Cynigir cymysgedd eclectig o adloniant, saith diwrnod yr wythnos – o'r ffilmiau diweddaraf i gerdd a drama, gigs, syrcas gyfoes, theatr awyrol a llawer mwy.
- Mae ein cyfleusterau ardderchog ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau hamdden wedi cael hwb pellach yn dilyn adnewyddu'r prif ganolfan chwaraeon. Mae Canolfan Brailsford yn cynnwys campfa deulawr newydd gyda'r peiriannau cardio ac offer diweddaraf.
- Mae pentref myfyrwyr y Santes Fair yn cynnig dewis o lety sy'n cynnwys fflatiau stiwdio a thai tref. Mae yno hefyd gaffi bar, siop, lle golchi dillad, ystafell ffitrwydd, lolfeydd myfyrwyr, ystafell sinema, gofod perfformio a cherddoriaeth a gofod gemau awyr agored.
- Byddwch hefyd yn medru manteisio ar yr aelodaeth am ddim o'r clybiau a chymdeithasau myfyrwyr, un o'r cynlluniau cefnogaeth gyfoed fwyaf ym Mhrydain, dosbarthiadau ieithoedd am ddim, a chynlluniau i ddatblygu eich medrau personol a'ch medrau cyflogadwyedd.

## Cipolwg cyflym ar Lety

- Cafodd **Llety Prifysgol Bangor ei enwi yn 3ydd ym Mhrydain** yn Ngwobrau *Whatuni* 2019
- **Sicrwydd o lety** i holl fyfyrwyr blwyddyn gyntaf sydd gyda dyddiad cychwyn ym Medi ac sy'n gwneud cais o fewn y dyddiad priodol*
- **Neuadd JMJ** – sy'n ganolbwynt bywyd cymdeithasol clos a chyfeillgar i fyfyrwyr Cymraeg a'r rhai sy'n dysgu'r iaith
- Mae pentrefi myfyrwyr y Santes Fair a Ffriddoedd yn cynnig **darpariaeth 'holl gynhwysol'** gydag aelodaeth o'r gampfa a Campws Byw, wi-fi, a dŵr poeth, trydan a gwres wedi'u cynnwys yn y pris
- Gallwch **gerdded i adeiladau'r Brifysgol** ac i ganol y ddinas
- **Cefnogaeth** Uwch Wardeiniaid, tîm mawr o Wardeiniaid a Staff Diogelwch ar gael 24 awr y dydd.

*Manylion llawn ar: www.bangor.ac.uk/sicrwyddllety



# SUT I GYRRAEDD
# **Y DIWRNOD AGORED**

**Yn y rhan fwyaf o achosion, y ffordd gyflymaf i Fangor yw gwibffordd yr A55 ar hyd arfordir y gogledd.**

Os ydych yn teithio o **dde/gorllewin Lloegr** o'r M6, gadael ar Gyffordd 20 a dilyn yr M56 tua'r gorllewin ac yna'r A55 i Fangor. Os ydych yn teithio o ogledd Lloegr, rhaid i chi gymryd yr M56, gadael ar Gyffordd 20 a dilyn yr M56 tua'r gorllewin ac yna'r A55 i Fangor, yna dilyn y cyfarwyddiadau isod 'O'r A55 a'r A5'.

O **orllewin Cymru**, dilynwch yr A487 i Aberystwyth, yna drwy Dolgellau, Porthmadog a Chaernarfon i Fangor. O dde Cymru, y ffordd orau yw heibio Henffordd, Llanllieni a'r Amwythig, yna dilyn arwyddion Wrecsam a Chaer at yr A55 i Fangor.

**O'r A55 a'r A5:**

- Wedi gadael yr A55 (Cyff. 11) ar y troad cyntaf gydag arwydd Bangor, dilynwch yr arwyddion am y Brifysgol.
- Fe ddaw hyn â chi i'r ddinas ar hyd Ffordd y Traeth a Ffordd Garth, fel y gwelwch ar y map.
- Bydd arwyddion y maes Parcio a Theithio ar gyfer y Diwrnod Agored ar Ffordd Deiniol a gofynnir i ymwelwyr sy'n dod o'r A55 barcio yno. Bydd bysus ar gael o 8.30am-10.30am i gludo ymwelwyr y pellter byr i Brif Adeilad y Brifysgol.
- Os bydd y meysydd parcio yma yn llawn, caiff ymwelwyr eu cyfeirio i'r meysydd parcio o gwmpas Prif Adeilad y Brifysgol ar Ffordd y Coleg.

**O'r A487:**

- Ar gylchfan yr A487/A4087, yn lle cymryd yr A4087 tuag at Fangor, gadewch wrth arwydd 'Conwy/Caergybi.'
- Ar y pedair cylchfan nesaf, dilynwch arwyddion Bangor.
- Fe ddaw hyn â chi i gyfeiriad Bangor ar hyd Ffordd Caergybi. Dilynwch yr arwyddion am y Brifysgol sy'n dod â chi at Ffordd y Coleg. Cewch eich cyfeirio i'r meysydd parcio ar hyd Ffordd y Coleg gan staff y Brifysgol.

**Teithio ar drên:**
Os mai teithio ar y trên yr ydych, **bydd bws mini gydag arwydd Prifysgol Bangor** arno wrth fynedfa Gorsaf Bangor fore Sadwrn o 9.00am ymlaen i gludo ymwelwyr i'r Brifysgol.

**TREFNIADAU PARCIO YN YSTOD Y DIWRNOD AGORED**

**Mae cyfleusterau Parcio a Theithio wedi cael eu trefnu ar gyfer y Diwrnod Agored** – bydd arwyddion i'r safle Parcio a Theithio o ffyrdd yr A55/A5 wrth ddynesu at y Brifysgol, a threfnwyd bysus i gludo ymwelwyr y pellter byr i brif adeiladau'r Brifysgol o 8.30am-10.30am. Gall ymwelwyr hefyd barcio yn unrhyw un o feysydd parcio swyddogol y Brifysgol sydd o amgylch Prif Adeilad y Brifysgol ar Ffordd y Coleg (51 ar y map) – ond niferoedd cyfyngedig o lefydd sydd ar gael yma.

**Campws Wrecsam**
Bydd y Diwrnod Agored ar gyfer rhai cyrsiau Gwyddorau Iechyd yn cael ei gynnal yng nghampws Wrecsam. Gweler tudalen 6 am fanylion y cyrsiau a gynhelir yn Wrecsam. Y cyfeiriad llawn yw: Ysgol Gwyddorau Iechyd, Prifysgol Bangor, Campws Wrecsam, Parc Technoleg Wrecsam, Ffordd Croesnewydd, Wrecsam, LL13 7YP.

O ffordd osgoi A483, trowch pan welwch yr arwydd am Wrecsam a'r Wyddgrug. Yn y gylchfan gyntaf, ewch allan ar y ffordd tuag at Ganol y Dref, ac yna yn yr ail gylchfan, trowch i'r dde (ar ffordd Parc Technoleg Wrecsam a'r Ysbyty). Dilynwch yr holl arwyddion ar gyfer Parc Technoleg Wrecsam a'r Ysbyty. Ar yr ail gylchfan, ewch allan ar yr ail lôn a dilynwch y lôn tua'r chwith i'r meysydd parcio.

Os ydych yn dod i Wrecsam ar drên, yr orsaf drenau agosaf i gampws Wrecsam yw Gorsaf Wrecsam Ganolog.

"Roeddwn yn ffeindio'r Diwrnod Agored wedi ei drefnu'n dda a chefais yr holl wybodaeth roeddwn ei angen er mwyn gwneud fy mhenderfyniad. Roedd y staff a'r myfyrwyr oedd yn helpu yn hynod o wybodus pan yn ateb cwestiwn... Roeddwn yn teimlo fy mod wedi cael croeso."

# MAPIAU O'R CAMPWS

**Noder os gwelwch yn dda: ni fydd rhaid i chi ffeindio eich ffordd i'r pynciau academaidd yn ystod y Diwrnod Agored - byddwch yn cael eich arwain yno gan fyfyrwyr presennol.**


Mae'r mapiau ar y dde ac isod a'r prif fap a'r allwedd ar dudalennau 14-15 yn dangos adeiladau y byddwch efallai angen mynd iddynt yn ystod y Diwrnod Agored. Mae'r rhain yn cynnwys adeiladau academaidd, llyfrgelloedd, cyfleusterau arlwyo a chymdeithasol, neuaddau preswyl a gwasanaethau a chyfleusterau eraill.


**Campws Bangor**
Mae adeiladau 1-16 yn cael eu dangos ar fap Safle'r Normal (ar y dde isod). Mae adeiladau A a B (Gwyddorau Eigion) yn cael eu dangos ar fap Porthaethwy ar y dde. Mae pob lleoliad arall yn cael ei ddangos ar y prif fap ar dudalennau 14-15.

**Campws Wrecsam**
Mae'r map ar y chwith isod yn dangos campws Wrecsam lle y cynhelir y Diwrnod Agored ar gyfer rhai cyrsiau Gwyddorau Iechyd (gweler tudalen 6).




**P** Parcio Prifysgol **P** Parcio Cyhoeddus



# MAP O FANGOR

**Noder os gwelwch yn dda: ni fydd rhaid i chi ffeindio eich ffordd i'r pynciau academaidd yn ystod y Diwrnod Agored – byddwch yn cael eich arwain yno gan fyfyrwyr presennol.**

## ALLWEDD

**Porthaethwy**
A Canolfan Môr Cymru
B Craig Mair

**Safle'r Normal**
1 Padarn
2 Neuadd Seiriol
3 Neuadd Arfon
4 Y Bistro
5 Adeilad George
6 Eifionydd a Rhos
7 Nantlle
8 Trefenai
9 Cilgwyn
10 Campfa a Neuadd Chwaraeon
11 Llyfrgell
12 Hiraethog
13 Ardudwy
14 Y Wern
15 Meirion
16 Dinas

**Safle Ffriddoedd**
17 Neuadd Reichel
18 Canolfan Chwaraeon Brailsford
19 Elidir
20 Enlli
21 Peris
22 Alaw
23 Y Borth
24 Cefn-y-Coed
**Neuaddau John Morris-Jones:**
25 Bryn Dinas
26 Tegfan
27 Glaslyn
28 Ffraw
29 Crafnant
30 Y Glyder / Porthdy Diogelwch
31 Llanddwyn
32 Braint (Llawr isaf - Siop)
33 Bar Uno (Llawr Isaf)
34 Adda
35 Idwal
(Llawr Isaf - Swyddfa Neuaddau)
36 Gwynant


**Ffordd Ffriddoedd**
37 Fron Heulog

**Ffordd Deiniol**
38 Adeilad Brambell
39 Canolfan Amgylchedd Cymru
40 Adeilad Alun Roberts
41 Adeilad W. Charles Evans
42 Adeilad Coffa
43 Academi (Clwb Nos)
44 Adeilad Wheldon
45 Ymholiadau / Diogelwch
46 Adeilad Thoday
47 Adeilad Deiniol
48 Pontio
(Lleolir Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor yn adeilad Pontio)

**Ffordd y Coleg**
50 Adeilad Brigantia
51 Prif Adeilad y Brifysgol
54 Ogwen
55 Hen Goleg
57 Aethwy
58 Athrolys
59 Alun
60 Hugh Owen
61 Eryri
62 Môn
63 Neuadd John Phillips
64 Dyfrdwy
68 Adeilad Lloyd
70 Canolfan Addysg Ryngwladol;
Canolfan Dyslecsia Miles
Gwasanaethau Myfyrwyr (Rathbone)
72 Neuadd Garth

**Stryd y Deon**
74 Cyfrifiadureg
Peirianneg Electronig


**76 Pentref y Santes Fair**




Mae adeiladau 1-16 yn cael eu dangos ar fap Safle'r Normal ac mae adeiladau A a B (Ysgol Gwyddorau Eigion) yn cael eu dangos ar fap Porthaethwy – y ddau ar y dudalen flaenorol. Mae pob lleoliad arall yn cael ei ddangos ar y prif fap ar y dde.

**Parcio Prifysgol**

**Parcio Cyhoeddus**


Conwy, Betws-y-Coed
A5
FFORDD GARTH
LÔN Y CARIADON
FFORDD Y COLEG
FFORDD SILIWEN
FFORDD Y TWYSOG
STRYD Y DEON
Aldi
M&S
Canolfan Siopa
Amgueddfa ac Oriel
Heddlu
Canolfan Siopa Deinol
P.O.
Cadeirlan
STRYD FAWR
FFORDD DEINIOL
Bangor Uchaf
HEOL VICTORIA
Morrisons
FFORDD SACKVILLE
BANGOR
LÔN POPTY
FFORDD CAERGYBI
FFORDD FARRAR
COLEG MENAI
PENTREF Y SANTES FAIR
A4087
Caernarfon

PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Marchnata, Recriwtio a Chyfathrebu
Prifysgol Bangor, Bangor, Gwynedd LL57 2DG
**Ff:** 01248 383561 / 01248 382005
**E:** diwrnodagored@bangor.ac.uk
**G: bangor.ac.uk**

Mae croeso i chi gysylltu gyda'r Brifysgol yn Gymraeg neu Saesneg.
Mae'r Brifysgol yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod y wybodaeth a geir yn y llyfryn hwn yn gywir ar adeg ei argraffu (Medi 2019).